

Beibl i Blant  
yn cyflwyno



Y Brenin  
Golygus a  
Ffôl



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest; Alastair Paterson

addaswyd gan: Lyn Doerksen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children  
[www.M1914.org](http://www.M1914.org)

©2021 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopio  
neu argraffu'r stori hon, ar yr amod  
nad ydych yn ei gwerthu.



Roedd Samuel, arweinydd a barnwr  
Israel, yn hen. Daeth ei feibion yn  
farnwyr yn ei le.  
Ond roedd meibion  
Samuel yn ddrwg.



Roedden nhw'n caru arian ac  
yn defnyddio eu pŵer i gael  
arian yn anonest.



Dyma bobl Israel yn dioddef achos bod  
y meibion yn ddrwg. Roedd y llysoedd yn  
annheg.




Roedd pobl yn gorfod talu arian i feibion  
Samuel os oedden nhw am gael help.



Roedd yn rhaid gwneud rhywbeth. Un diwrnod dyma arweinwyr Israel yn cyfarfod a gofyn i Samuel am help.




"Gad i ni gael brenin," gofynnodd yr arweinwyr. Doedden nhw ddim am i feibion drwg Samuel eu harwain. Roedden nhw am gael brenin yr un fath â'r gwledydd eraill i gyd.





Aeth Samuel yn flin. Roedd gan Israel frenin! Duw Nerthol, Tragwyddol - fe oedd yn rheoli dros Israel. Roedd e wedi gollwng nhw'n rhydd pan oedden nhw'n gaethweision yn yr Aifft, ac wedi agor y Môr Coch o'u blaen.







Ac yna  
roedd e wedi  
rhoi gwlad  
brydferth i Israel.




Wrth i Samuel weddio, dywedodd yr  
ARGLWYDD, "Ddim ti maen nhw'n ei  
wrthod, ond fi. ...




... Maen nhw wedi addoli duwiau eraill.  
Gwna beth maen nhw'n ofyn a rho frenin  
iddyn nhw."





Dywedodd Duw  
wrth Samuel am  
rybuddio'r bobl  
y byddai  
brenin yn  
hawlio treth  
oddi arnyn  
nhw; yn  
cymryd eu  
caeau gorau  
a'u ...





... gwinllannoedd;  
byddai'n  
cymryd eu  
meibion i fod  
yn filwyr; ac  
yn gwneud  
i'w merched  
weithio  
iddo fe.




GWINLLAN Y BRENIN

Ond roedd y  
bobl am gael  
brenin, beth  
bynnag  
fyddai'n  
digwydd.

DIM MYNEDIAD



Cafodd Samuel ei arwain gan  
Dduw at ddyn ifanc, golygus,  
swil a TAL  
iawn - roedd e'n  
dalach na phawb  
arall. Saul  
oedd ei enw.





Pan welodd Samuel Saul,  
dywedodd yr ARGLWYDD,  
"Bydd hwn yn frenin  
ar fy mhobl."




Dyma Samuel yn tywallt olew  
dros ben Saul a'i wneud  
yn frenin Israel.


Wrth iddo gyflwyno  
Saul i bobl Israel,  
dyma nhw'n gweiddi,  
"Hir oes i'r brenin!"



Cafodd y Brenin Saul brawf yn fuan iawn  
wedyn. Ffurfiodd byddin Ammon gylch o  
gwmpas un o ddinasoedd Israel, ...



... a bygwth dallu llygad de pob dyn. Am  
gynllun creulon! Clywodd y Brenin Saul  
am y bygythiad. Dechreuodd baratoi ei  
fyddin.





Pan ddaeth y ddwy  
fyddin wyneb yn wyneb,  
dinistriodd Saul  
yr Ammoniaid  
ac achub y ddinas.  
Dywedodd y brenin  
Saul "Duw sydd wedi  
rhoi'r fuddugoliaeth  
i Israel."



Rhoddodd Duw fuddugoliaeth fawr i Saul  
y diwrnod hwnnw. Ond doedd Saul ddim  
yn anrhydeddu Duw bob amser. Un

diwrnod, cyn ymladd  
yn erbyn y  
Philistiaid,  
cyflwynodd  
offrymau i Dduw.



Roedd e'n gwybod mai gwaith Samuel  
oedd hyn. Roedd e'n gwybod bod Duw  
am iddo fe ddisgwyl i Samuel gyrraedd.

Ond gwrthododd  
Saul wrando ar  
Dduw!



Ar ôl i Samuel gyrraedd, dywedodd wrth Saul, "Rwyf ti wedi bod yn wirion. ...





... Dwyt ti ddim wedi ufuddhau i  
orchymyn yr **ARGLWYDD** dy Dduw.



Bydd dy frenhiniaeth di yn dod i ben."  
Efallai bod Saul yn meddwl bod hyn  
yn bechod bach.



Ond mae gwrthod gwranddo ar Dduw  
bob amser yn beth mawr.




Dro arall, cafodd Saul  
ei orchymyn gan  
Dduw i ddinistrio  
pobl ddrwg Amalec.



Ond  
gadawodd  
Saul a'r  
bobl i frenin  
Amalec,  
Agag, fyw.



Fe wnaethon nhw hefyd  
gadw trysorau,  
defaid a gwartheg.



Dywedodd  
Saul bod  
nhw am  
gadw'r pethau  
hyn fel  
offrymau i'r  
**ARGLWYDD.**





Dywedodd Samuel wrth  
Saul, "Mae ufuddhau yn  
well na rhoi offrymau.

Rwyt ti wedi gwrthod  
gwrando ar Dduw, ac  
mae'r **ARGLWYDD**  
wedi dy wrthod  
fel brenin Israel."





Roedd yn ddrwg gan Saul  
ei fod wedi pechu. Ond  
rhy hwyr! Roedd gweddill  
ei fywyd yn anhapus  
achos ei fod e wedi  
gwrthod ufuddhau  
i Dduw.



Y Brenin Golygus a Ffôl

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Samuel 8-16

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn  
goleuo." Salm 119:130





Y Diwedd



Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.



Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrdd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

